

Taflen wybodaeth i rieni



Astudiaeth 'Well i mi'

Lles, iechyd a ffitrwydd plant gydag anawsterau symud (Well i mi)

Teitl y project: Astudiaeth 'Well i mi':

Lles, iechyd a ffitrwydd plant gydag anawsterau symud

Swyddog ymchwil: Dr Llinos Haf Spencer

Diolch am ddarllen y daflen wybodaeth hon am yr Astudiaeth Well i mi

Fe'ch gwahoddir chi a'ch plentyn i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil o'r enw astudiaeth Well i mi. Cyn i chi benderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio, mae'n bwysig eich bod yn deall pam mae'r project yn cael ei wneud, a'r hyn mae'n ei olygu.



Beth yw diben Astudiaeth Well i mi?

Mae ymchwilwyr o Brifysgol Bangor wedi cael eu comisiynu i wneud astudiaeth ymchwil i ddatblygu dulliau asesu, ac archwilio hoff ddulliau ymarfer corff plant gydag anawsterau symud a'u teuluoedd. Erbyn diwedd yr astudiaeth gobeithir y bydd ymyriadau cadw'n heini wedi'u llunio'n arbennig. Gobeithiwn brofi'r ymyriadau cadw'n heini newydd mewn astudiaeth arall yn y dyfodol.

Pam cafodd fy mhlentyn ei ddewis?

Dewiswyd eich plentyn oherwydd ei fod ef/ei bod hi yn defnyddio cadair olwyn.



Oes rhaid i'm plentyn gymryd rhan?

Mae pawb sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn gwneud hynny o'u gwirfodd. Chi a'ch plentyn sydd i benderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio. Os bydd eich plentyn yn penderfynu cymryd rhan, gofynnir i chi lofnodi ffurflen gydsynio, a rhoddir copi o'r ffurflen a'r daflen hon i chi eu cadw. Os bydd eich plentyn yn penderfynu cymryd rhan, gall dynnu'n ôl unrhyw bryd heb roi rheswm am hynny. Os penderfynwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, neu beidio â chymryd rhan o gwbl, ni fydd hynny yn effeithio ar safon y gofal mae eich plentyn yn ei dderbyn.

Yn ôl y gyfraith, gall plant 16 oed a hŷn benderfynu drostynt eu hunain a ydynt am gymryd rhan. Gall plant dan 16 oed hefyd benderfynu drostynt eu hunain, ond byddwn yn gofyn i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol lofnodi ffurflen gydsynio ychwanegol.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy mhlentyn yn cymryd rhan?

Grŵp ffocws neu gyfweiliad wyneb yn wyneb

Mae'r astudiaeth yn golygu y bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn grŵp ffocws **neu** gyfweiliad wyneb yn wyneb yn y lle cyntaf. Bydd y sgwrs yn cael ei recordio gyda recordydd llais digidol, ac os bydd hynny'n iawn, gyda recordydd fideo.



Lluniau recordydd llais a recordydd fideo

Yn y grŵp ffocws bydd eich plentyn yn cwrdd â phlant a phobl ifanc o oed tebyg i siarad am yr ymarfer corff a'r gweithgareddau maent yn eu gwneud ar hyn o bryd neu yr hoffent eu gwneud yn y dyfodol. Byddwn yn gofyn cwestiynau iddynt am ymarfer corff a'u teimladau am wneud ymarfer corff. Ymhen ychydig wythnosau, hoffem ofyn i'ch plentyn lenwi holiaduron lles a hefyd hoffem fesur iechyd a ffitrwydd eich plentyn.

Cwestiynau i rieni - Hoffem ofyn cwestiynau i chi fel rhieni ynglŷn â lle rydych yn byw ac am eich iechyd. Ymhen ychydig wythnosau, hoffem fesur eich iechyd chi ynghyd ag iechyd eich plentyn gan ein bod eisiau archwilio'r berthynas rhwng statws iechyd y rhieni a'u plant.

I ble fydd fy mhlentyn yn mynd i gymryd rhan?

Gall eich plentyn ddewis un o'r opsiynau a ganlyn:



1. Bod yr ymchwilydd yn dod i siarad â chi a'ch plentyn yn eich cartref.



2. Bod yr ymchwilydd yn siarad â'ch plentyn a phobl eraill (a fydd o gwmpas oed eich plentyn) mewn grŵp mewn lleoliad yn agos at eich cartref (fel canolfan hamdden). Ad-delir y costau teithio gan Brifysgol Bangor.

A fydd fy mhlentyn yn cael rhywbeth am gymryd rhan?

Os bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn cyfweiliad neu grŵp ffocws, byddwn yn diolch iddo ef/hi trwy roi taleb gwerth £15. Gall eich plentyn ddewis bob tro rhwng talebau siopau'r stryd fawr (High Street Vouchers), neu daleb iTunes. □



**Talebau'r stryd fawr
Love2shop**



Talebau iTunes

Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth fydd fy mhlentyn yn ei rhoi?

Bydd y sawl sy'n cynnal y grŵp ffocws/cyfweliad yn gwrandao ar y tâp sain ac yn ei drawsgrifio air am air i ddogfen wedi ei theipio. Byddwn yn trafod y materion pwysicaf a godir gan y plant a'r bobl ifanc. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ymarferion a gweithgareddau cadw'n heini wedi'u llunio'n arbennig i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.



Beth yw'r anfanteision a'r risgiau posibl o gymryd rhan?

Nid ydym yn rhagweld unrhyw anfanteision na risgiau i'ch plentyn o gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Beth yw'r manteision posibl o gymryd rhan?

Nid yw'r cyfleoedd ymarfer corff sydd ar gael i chi a'ch plentyn yn debygol o newid yn y tymor byr. Bydd yr hyn fydd eich plentyn yn ei ddweud wrthym yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ymyriadau ymarfer corff sydd wedi'u llunio'n arbennig i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Beth os bydd rhywbeth yn mynd o'i le?

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ffordd y cawsoch eich trin yn ystod yr astudiaeth hon, dylech fedru defnyddio trefn gwyno arferol Prifysgol Bangor.

A fydd y ffaith fy mod yn cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol?

- Dim ond aelodau o'r tîm ymchwil fydd yn gallu gweld yr holl wybodaeth.
- Ni chaiff enwau unigolion, na manylion a all ddangos pwy yw unigolion penodol, eu cynnwys yn themâu neu ganlyniadau'r astudiaeth.
- Efallai y defnyddir dyfyniadau o gyfweiliadau mewn adroddiadau, cyflwyniadau a phapurau, ond ni fydd modd olrhain y rhain i unigolion penodol.
- Ni fydd unrhyw adroddiad a gyhoeddir ac na chyhoeddir yn rhoi manylion o'r hyn y gellid adnabod unigolion.
- Ni ddatgelir gwybodaeth dim ond at ddibenion diogelu plentyn unigol neu aelod o'r teulu. Dilynrir y drefn safonol os bydd pryderon difrifol am ddiogelwch plentyn neu aelod o'r teulu.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

- Cynhyrchir adroddiad terfynol yr astudiaeth yn 2014.
- Yn dilyn hyn, cynhelir ymarfer eang i gyhoeddi'r canfyddiadau, yn cynnwys cyhoeddiadau mewn
 - cyfnodolion proffesiynol ac academiaidd
 - a chyflwyniadau mewn seminarau a chynadleddau

Pwy sy'n trefnu a chyllido'r ymchwil?

Cynllun cyllido ymchwil Canolfan Ymchwil Clinigol Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd sydd wedi ariannu'r project, a thîm o Brifysgol Bangor sy'n gwneud yr astudiaeth. Nid oes tâl i sefydliadau nac unigolion am gymryd rhan yn yr astudiaeth - ar wahân i daleb £15 a roddir i ddiolch i bob plentyn am gymryd rhan mewn grŵp ffocws/cyfweliad.

Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth?

Mae'r astudiaeth hon wedi'i hadolygu a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Gogledd Orllewin Cymru'r GIG.

Ydych chi eisiau cymryd rhan?

Os ydych chi a'ch plentyn am gymryd rhan yn yr ymchwil, llenwch y ffurflen gysylltu bapur neu llenwch y ffurflen gysylltu ar wefan Astudiaeth Well i mi, neu ffoniwch neu anfonwch neges e-bost at Llinos i gael rhagor o wybodaeth.

Unrhyw gwestiynau?

Os hoffech wybod mwy am y project cyn i chi benderfynu cymryd rhan, gellwch ein ffonio, anfon neges e-bost neu ysgrifennu at Llinos.



**Ffoniwch neu
anfonwch e-
bost at Llinos i
gymryd rhan**

Dr Llinos Spencer
Swyddog Ymchwil astudiaeth Well i mi
Canolfan Ymchwil Gysylltiedig ag Iechyd
Fron Heulog, Ffordd Ffriddoedd
RHADBOST BG35
Bangor, Gwynedd
LL57 2BR



Ffôn: ☐ 01248 38 3171
E-bost: L.Spencer@bangor.ac.uk
Gwefan: <http://wellmi.bangor.ac.uk>

Beth ddylwn ei wneud os oes gennyf unrhyw bryderon am yr astudiaeth na all y tîm ymchwil eu datrys?

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r astudiaeth, cysylltwch â:

Dr Malcolm Godwin
Pennaeth Ysgol Gwyddorau Gofal
Iechyd, Prifysgol Bangor
Fron Heulog, Ffordd Ffriddoedd
Bangor, Gwynedd, UK, LL57 2EF
Ffôn: +44 (0)1248 38 3117
E-bost: m.godwin@bangor.ac.uk

Astudiaeth Well i mi
Cam 1
Taflen wybodaeth i rieni
Fersiwn V.2, Dyddiad: 20/08/2013